Cofnodion cyfarfod 14 Ionawr 2020 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7.00 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Iwan Huws	
Casi Roberts	Lliwen Griffith-Williams	
Iestyn Harris	Elliw Williams	
Eifion Williams	Llŷr Evans	
Mei Gwilym		
Cynog	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths	
Nerys John	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Iwan Huws drwy ddymuno blwyddyn newydd da i bawb, derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr: Aled Emyr. Derbyniwyd llythyr ymddiswyddiad oddi wrth Gruff John, diolchwyd iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor Cymuned	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
2.1	Ymddiheurodd y Cynghorydd os oedd yn ail adrodd ond cyfeiriodd at gwynion casglu gwastraff dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Dywedodd os oedd o yn cwyno at y Cyngor un llais ydoedd a bod angen i'r gymuned gwyno yn ffurfiol drwy ap neu wefan y Cyngor ac yna mae'r Cyngor Sir yn gallu gweld y niferoedd sydd yn siomedig a'r gwasanaeth.	
2.3	Cyfeiriodd at loriau yn cael eu hanfon drwy Seilo a bod cerbydau yn mynd yn styc wrth y bont. Mae Cyngor Gwynedd yn rhoi sylw i'r mater. Dywedodd y Clerc ei bod wedi dod a hyn i sylw'r Cyngor yn flaenorol a'u bod wedi gado codi arwydd.	
2.4	Perchennog y tir ger Cerrig yr Afon lle mae angen casglu sbwriel o'r afon wedi caniatáu gwirfoddolwyr a swyddogion y Cyngor i fynd ar ei dir ar gyfer casglu'r sbwriel. Dywedodd y Cynghorydd Nerys John nad oedd wedi eto cysylltu â Swyddog y Cyngor Sir ar gyfer trefnu dyddiad casglu'r sbwriel.	
2.5	Adroddiad Cyngor Gwynedd ynglŷn ag Air B&B am gymryd rhai misoedd cyn fydd yn barod i'w gyhoeddi.	
2.6	Mis Mawrth fydd Cyngor Gwynedd yn gosod y gyllideb ac felly fydd codiad i'r dreth Cyngor yn cael ei benderfynu pryd hynny.	
2.7	Cafwyd trafodaeth ar faterion cyllidebol Cyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned ynglŷn â chynnal toiledau a chaeau chwarae.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cadarnhawyd gwariant a derbyn adroddiad ar gyfer Mis Rhagfyr 2019, derbyniwyd yn gywir gan y Cyngor.	
4.2	Derbyniwyd adroddiad ar y gymhariaeth o'r gyllideb drafft a'r	

	gwir gwariant hyd yma. Dywedodd y Swyddog Ariannol bod y gwariant o dan reolaeth.	
4.3	Derbyniwyd y Gyllideb drafft ar gyfer 2020 - 2021. Yn ystod y drafodaeth penderfynodd y Cyngor i beidio a chlustnodi £10K ar gyfer Cysgodfannau Bysiau fel cofnod 7.4 y mis blaenorol. Felly bydd £6K yn cael ei glustnodi.	
4.4	Trafodwyd y praesept a phenderfynwyd nad oedd angen ei godi'r flwyddyn 2020 - 2021. Y Swyddog Ariannol i hysbysu Cyngor Gwynedd	**Swyddog Ariannol**
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion Rhagfyr fel rhai cywir. O'r cofnodion codwyd y materion canlynol: 7.1 Tir Rheilffordd - copi o'r Les heb ei derbyn. Penderfynwyd byddai'r Cynghorydd Iestyn Harris yn cael copi ac yn ei hanfon at y Clerc.	**IH/CLERC**
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	C19/1096/20/DT – 1 Porth y Llechen, Y Felinheli LL56 4JG – Cais i godi estyniad un llawr to fflat ynghyd a balcony a grisiau yng nghefn yr eiddo. – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC -**
6.2	C19/1184/20/RA - 42 Brynffynnon, Y Felinheli LL56 4SJ - cais ar gyfer amod 2 (terfyn amser cyflwyno materion a godwyd yn ol) o ganiatad Cynllunio C17/0028/20/AM. - **GWRTHWYNEBU** ar sail bod ardal Brynffynnon wedi ei orr-ddatblygu ac oherwydd hynny mae pwysau cynyddol ar y ffordd ar gyfer parcio ac o ganlyniad mae rhwystr i drafnidiaeth trwodd.	**CLERC**
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Cyflwynodd y Cynghorydd Daniel Williams adroddiad ar lafar. Dim wedi digwydd eto ynglŷn â chodi cysgodfan gyferbyn a Cwrt Menai. (eitem 7.3 cofnodion Rhagfyr 2019).	
7.2	Golau Solar Cysgodfan Bws Cerrig yr afon - mae gwybodaeth wedi ei dderbyn gan y Cynghorydd Mei Gwilym ynglŷn ag uned golau am £37.75. Gobeithir ei dderbyn yn fuan a bydd yn cael ei osod ar brawf. Nid yw Cyngor Gwynedd (Uned Goleuadau Stryd) wedi ymateb ynglŷn â'r uned solar ar y gysgodfan bysiau arall ger Cerrig yr Afon. Y Clerc i barhau i drio derbyn ymateb.	**CLERC**
7.3	Mae mainc ger Cerrig yr Afon a Pont y Ffordd Osgoi angen sylw. Y Cynghorydd Dan Williams am ofyn am bris i'r gwaith gael ei gwblhau yn y gwanwyn.	**DW**
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Y Cynghorydd Nerys John yn arwain – dywedodd bydd dyddiad i gasglu sbwriel o'r Afon ger Llwybr Cerrig yr Afon wedi ei benderfynu erbyn y cyfarfod nesaf.	**NJ**
8.2	Atgoffwyd Y Cynghorydd Eifion Williams bod angen contractwr i godi stanciau newydd ar gyfer Llwybr Cerrig yr Afon, hefyd i wneud gwaith cynnal i'r ffens sydd ger yr ardal lle mae anifeiliaid yn cael yfed o'r afon.	**EW**
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Y Cynghorydd Casi Roberts yn arwain. Dywedodd ei bod wedi siarad â Meic ynglŷn â'r fainc a'r hysbysfwrdd y Fynwent a bod trefniadau i'w gwneud yn fuan a phenderfynwyd byddai	

	gwell symud yr hysbysfwrdd i ymyl y wal er mwyn ei gysgodi oddi wrth y tywydd. Gobeithir cael pris ganddo yn fuan.	
9.2	Angen marcio lleoliad rhesi i'r beddi nesaf.	
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Y Cynghorydd Elliw Williams yn arwain. Dywedodd nad oedd y Cyngor yn llwyddiannus yn ei gais am gymorth ariannol oddi wrth Comic Relief. Penderfynwyd byddai is-bwyllgor yn trefnu cyfarfod	**Swyddog Ariannol.**
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Daniel Williams (arweinydd).	
11.2	Proses tendro yn mynd yn ei flaen ar gyfer gwaith o godi porch.	**DW/Swyddog Ariannol**
11.3	Mae'r gwaith CCTV yn mynd yn ei flaen.	**DW**
11.4	Byrddau sgwar(3) wedi eu harchebu.	**DW**
11.5	Mae llechen wedi dod i lawr o'r to ac mae dŵr wedi dod i mewn i'r neuadd. Mae adeiladwr lleol am edrych os oes modd ei rhoi yn ôl heb angen scaffold.	
11.6	Diolchodd y Cynghorydd Daniel Williams i'r Cynghorydd Casi Roberts am sicrhau tynnu'r goeden Nadolig i lawr ar ôl y gwyliau.	
11.7	Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod Mrs Sheila Williams Gofalwraig y Neuadd wedi colli ei thad yn ddiweddar. Anfonwyd Cydymdeimlad y Cyngor ati. Hefyd Cafwyd gwybodaeth bod Leisa sydd yn rhedeg Yoga yn y neuadd wedi colli ei mam yn sydyn, mae Cydymdeimlad y Cyngor yn cael ei anfon ati hithau.	
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan.	**CLERC**
13.0	EISTEDDFOD	
	Cafwyd gwybodaeth oddi wrth y Cynghorydd Nerys John bod Y Felinheli wedi cael targed o £5k i'w godi ar gyfer y 'Steddfod yn 2021.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:00	
Llofnod:		**Dyddiad:**